


JENKINS, JOHN, Hengoed (1779 - 1853), gweinidog gyda'r Bedyddwyr Neilltuol, diwinydd, golygydd a chyhoeddwr



Enw: John Jenkins
Dyddiad geni: 1779
Dyddiad marw: 1853
Priod: Martha Jenkins (née Edmunds)
Plentyn: John Jenkins
Plentyn: Titus Jenkins
Plentyn: Llewelyn Jenkins
Rhiant: Mary Jenkins
Rhiant: Jenkin Jenkins
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr Neilltuol, diwinydd, golygydd a chyhoeddwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: James Mansel John

Ganwyd 28 Tachwedd 1779 ym mhlwyf Llangynidr, sir Frycheiniog, mab Jenkin a Mary Jenkins. Ni chafodd addysg ond ysgol nos ' am dymor byr ' a dysgodd ei hunan i ddarllen a sgrifennu. Dechreuodd bregethu yn 1800 ac ordeiniwyd ef yn Llangynidr, Mai 1806. Yn 1809 fe'i sefydlwyd yn Hengoed, Morgannwg, ac yno y treuliodd weddill ei oes gan deithio Cymru i genhadu a gwerthu ei lyfrau. Yn 1811 ymddangosodd ei gyfrol bwysicaf, sef *Gwelediad y Palas Arian* (ail arg. 1820, 3ydd 1864) yn cynnwys corff o ddiwinyddiaeth 'i osod allan gadernid yr eglwys efangylaidd' [sic]. Yn 1815, gyda **Thomas Williams** ('Gwilym Morgannwg'), cychwynnodd *Y Parthysllydd; neu Eirlyfr Daearyddol*, a rhwng 1819 ac 1831 cyhoeddodd rifynnau ei *Espaniad* llafurfawr o'r holl Feibl, esboniad ' yn lan oddi wrth syniadau dieithr a dychmygion gwylltion. ' Yr un adeg cafwyd ei *Traethawd ar Fedydd*, 1819, a'i *Catecism Byr*, 1820, a chasglodd ' *Lyfr Hymnau* ' tua 1824. O'r wasg a bwrcasai yn 1819 y cyhoeddodd Jenkins a'i feibion yr *Espaniad* a chylchgronau (gan olygu rhai) fel *Cyfrinach y Bedyddwyr* (am 1827), *Greal y Bedyddwyr* (am 1833-7), *Ystorfa y Bedyddwyr* (am 1838-41), **Y Gwir Fedyddiwr** (am 1842-3), *Y Bedyddiwr* (am 1844) ynghyd â llyfrynau i'r ysgol Sul. Yn feirniad parod yn y cylchgronau ar athrofa'r Bedyddwyr yn y Fenni, bu'n fwyaf amlwg fel ' uwch Galfiniad ' a wrth-ddadleuai yn erbyn Ffwleriaeth.

Priododd, 1801, Martha Edmunds (1769 - 1830) ac o'r plant bu TITUS JENKINS (1804 - 1834) yn weinidog y Bedyddwyr yn Ramsey, Huntingdon; aeth JOHN JENKINS (1807 - 1872) yn genhadwr i Lydaw; a bu **Llewelyn Jenkins** (1810 - 1878) yn gymwynaswr i'r Wasg Gymraeg fel cyhoeddwr, golygydd, ac awdur. Priododd eu tad ddwywaith wedyn. Bu farw 5 Mehefin 1853 a chladdwyd ef ym mynwent capel Hengoed.

Awdur

Y Parchedig Athro James Mansel John, (1910 - 1975)

Ffynonellau

John Jenkins a Ll. Jenkins, *Hanes buchedd a gweithiau awdurol y diweddar John Jenkins D. D., Hengoed*(Caerdydd 1859)

Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn: mewn cysylltiad a hanes duwinyddiaeth a phregethu Cymru* (Wrexham 1874), i, 471-91

Seren Gomer, 1822-3, 1828, 1839-44

Cyfrinach y Bedyddwyr, 1827

Greal y Bedyddwyr, 1835

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 101570059

Wikidata: Q20733478

Dyddiad cyhoeddi: 1953

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



John, J. M., (1953). JENKINS, JOHN, Hengoed (1779 - 1853), gweinidog gyda'r Bedyddwyr Neilltuol, diwinydd, golygydd a chyhoeddwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JENK-JOH-1779>

Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwydian
Llywodraeth Cymru
Powered by
Welsh Government